**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-751
Ein cyf/Our ref CS/00733/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

23 Mehefin 2017

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mai wedi i'r Pwyllgor Deisebau ystyried fy ymateb i'r ddeiseb 'Cydnabod Achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant' yn ei gyfarfod dyddiedig 9 Mai. Rwyf wedi nodi bod aelodau o'r Pwyllgor a noddwr y ddeiseb, Families Need Fathers Both Parents Matter Cymru, wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'm hymateb yn y llythyr amgaeedig.

Mae CAFCASS Cymru a'i ymarferwyr yn deall yn llawn bod modd i blant ddioddef niwed emosiynol pan fo un rhiant yn troi'r plentyn yn erbyn y llall. Rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod bod diogelu ac amddiffyn plant yn nodweddion sylfaenol ar fframwaith hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ac mae Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL), yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ymarferwyr i weithio mewn sefyllfaoedd cymhleth. Mae achosion cyfraith breifat yn aml yn cynnwys anghydfod rhwng rhieni ynghylch trefniadau plant; mae gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr, fel gweithwyr proffesiynol, yn brofiadol wrth ymdrin ag anghydfodau sy'n amrywio o ran eu difrifoldeb. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cael eu goruchwylio gan uwch staff yn eu sefydliadau. Mae hyn yn cynnig lefel ychwanegol o sicrwydd i gefnogi arferion diogel a chadarn.

Mae nifer o wahanol arfau ar gael i ymarferwyr CAFCASS Cymru wrth eu gwaith. Un o'r rhain yw'r Rhestr Wirio Asesiad Lles Plant a'r Glasoed (CAWAC). Mae'r Rhestr Wirio hon wedi'i dilysu'n academaidd, ac mae holl ymarferwyr CAFCASS Cymru yn derbyn hyfforddiant achrededig yn ei chylch. Datblygwyd y Rhestr Wirio i asesu'r effaith seicolegol ar blant sy'n byw mewn amgylchedd lle mae gwrthdaro rhwng y rhieni (pan fo'r gwrthdaro'n digwydd yn aml, yn ddwys ac yn arwain at ganlyniad anfoddhaol). Mae'r Rhestr Wirio hefyd yn helpu i adnabod sefyllfaoedd lle mae atebion y plentyn yn dangos iddo gael ei ddylanwadu'n negyddol yn erbyn rhiant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn, mae 'gelyniaeth ddifaddeuant' wedi'i gynnwys fel maes ymarfer yng nghynllun dysgu a datblygu CAFCASS Cymru. Mae'r cynllun dysgu a datblygu yn cael ei adolygu a'i adnewyddu'n flynyddol. Nid yw data a gesglir gan CAFCASS Cymru yn manylu ynghylch themâu neu ymddygiadau penodol; felly nid oes gwybodaeth am nifer yr achosion o elyniaeth ddifaddeuant ar gael.

Fy marn i, a barn Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru, yw bod y fframwaith rheoleiddiol a chyfreithiol presennol yn cynnwys darpariaethau i ddelio’n briodol ac yn effeithiol â’r ymddygiadau hyn. Prif ganolbwynt y llys teulu bob tro wrth wneud penderfyniadau yw lles y plentyn.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children